Chartered Institute of Housing Cymru

# Yr hyn sydd angen i chi ei wybod am lefelau tlodi presennol yng Nghymru



# Yr hyn sydd angen i chi ei wybod am lefelau tlodi presennol yng Nghymru

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Ym mis Ionawr 2023 rhyddhaodd [Sefydliad Joseph Rowntree]() a [Sefydliad Bevan]() eu briffiau diweddaraf ar dlodi. Edrychodd Sefydliad Joseph Rowntree ar y DU gyfan a bu i ddadansoddiad Sefydliad Bevan ymdrin â Chymru'n unig.

Ym mis Ionawr fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n edrych ar lefelau amddifadedd materol, math mwy difrifol o anfantais.

## Lefelau tlodi ac amddifadedd materol cyffredinol

Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru y cyfrannau a ganlyn o amddifadedd materol:

- 11 y cant o'r holl oedolion
- Pedwar y cant o bensiynwyr

Mae'r unigolion hyn yn byw mewn ffurf ddifrifol o anfantais lle mae'r unigolyn yn profi diffyg cyfleoedd ac adnoddau difrifol.

Nododd Sefydliad Joseph Rowntree fod 25 y cant o boblogaeth Cymru mewn tlodi ar hyn o bryd (bydd rhai o'r rhain mewn amddifadedd materol hefyd). Mae hyn yn cyfateb i 75,000 o unigolion. Dyma'r drydedd gyfradd tlodi uchaf wrth edrych ar ranbarthau'r DU. Ond eto, pan edrychwn ar y pedair gwlad gyda'i gilydd, Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf. Mae hyn wedi'i briodoli i gyfran uchel o oedolion oedran gwaith nad ydynt mewn cyflogaeth ynghyd â lefelau uchel o waith â thâl isel.

Yng Nghymru, ar adegau nid oes gan 14 y cant o gartrefi ddigon ar gyfer hanfodion bywyd. Mae bron i hanner yr holl aelwydydd yng Nghymru'n cael trafferth fforddio unrhyw beth y tu hwnt i eitemau bob dydd.

## Lefelau tlodi plant a theuluoedd

Mae tlodi plant yng Nghymru rhwng 27 a 36 y cant, sy'n uwch na'r gyfradd gyfartalog. At hynny, mae cyfraddau tlodi plant yng Nghymru wedi cynyddu rhwng tri i chwe phwynt canrannol dros y chwe blynedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae 19 y cant o deuluoedd ag un plentyn a 23 y cant o deuluoedd â dau blentyn yn aml neu bob amser yn ei chael hi'n anodd fforddio'r holl hanfodion. Bu'n rhaid i dros hanner y teuluoedd gyda phlant fynd heb wres yn eu cartref.

## Tlodi a gwaith

Yng Nghymru mae tua 15 y cant o weithwyr mewn tlodi. Y risg fwyaf o dlodi yw i'r unigolion hynny sy'n gweithio ym maes manwerthu. Mae'r argyfwng costau byw parhaus a chwyddiant ar raddfa sylweddol uwch na thwf enillion yn debygol iawn o gynyddu'r risg o dlodi tra'n gweithio.

Ceir anghydraddoldebau rhanbarthol hefyd o ran argaeledd gwaith a'r rhwydweithiau trafnidiaeth sy'n effeithio ar gyrraedd y gwaith neu fedru cael mynediad at waith â thâl uchel.

## Tai a thlodi

Mae cost tai yn sbardun penodol i dlodi ymysg aelwydydd sy'n rhentu, gyda 51 y cant o rentwyr preifat mewn tlodi oherwydd eu costau tai. Ond mewn cyferbyniad, 17 y cant yn unig o rentwyr preifat sydd heb ddigon yn aml neu bob amser ar gyfer hanfodion bywyd o'i gymharu â 36 y cant o denantiaid tai cymdeithasol. Mae cyfraddau ar eu huchaf ymysg rhentwyr cymdeithasol hefyd, ar 42 y cant. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r incwm is a welir ymysg rhentwyr cymdeithasol lle mae 70 y cant o enillion tenantiaid yn y 40 y cant isaf.

Yn gyffredinol, mae 46 y cant o aelwydydd yn poeni am gael eu troi allan o'u cartref dros y tri mis nesaf. Dyma ddadansoddiad o hyn:

- 13 y cant yn berchnogion gyda morgais
- 19 y cant yn rhentu'n breifat
- 14% yn rhentu gan landlord cymdeithasol

Mae hyn yn debygol o waethygu dros y misoedd nesaf gyda rhenti preifat yn gweld y cynnydd mwyaf ers deng mlynedd a chostau morgeisi'n esgyn o ganlyniad i gyfraddau llog uwch.

## Ethnigrwydd a thlodi

Mae pobl dduon lleiafrifoedd ethnig 2.5 gwaith yn fwy tebygol na phobl wyn o fod mewn tlodi cymharol. Mae pobl BME yn ffurfio 15 y cant o boblogaeth y DU ond eto mae 26 y cant o'r rhai mewn tlodi llwyr yn dod o gefndir BME. Mae gan aelwydydd BME lefelau uwch o dlodi tra'n gweithio ac o dlodi plant hefyd. Priodolir hyn i'r ffaith bod gweithwyr BME yn fwy tebygol o fod â'r math o swyddi a phatrymau gwaith sy'n gysylltiedig â thlodi tra'n gweithio.

## Anabledd a thlodi

Y gyfradd dlodi bresennol ar gyfer pobl anabl yw 29 y cant ac mae oedolion anabl sy'n gweithio ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi. Sbardun allweddol i dlodi yn y grŵp hwn yw lefelau cyflogaeth isel.

Ar hyn o bryd mae 52 y cant o bobl anabl wedi mynd heb wresogi eu cartref ac mae 39 y cant wedi torri'n ôl ar brydau bwyd neu fynd hebddynt. Mae pobl anabl hefyd ddwywaith yn fwy tebygol o bryderu am golli eu cartref dros y tri mis nesaf.

## Barn CIH Cymru

Mae'n amlwg o'r ddau adroddiad fod yna lefelau sylweddol o dlodi yng Nghymru gyda lefelau tlodi Cymru ar lefel uwch na gweddill y DU. Mae teuluoedd sydd â phlant yn cael eu heffeithio fwyaf gyda bron i hanner heb fedru fforddio'r hanfodion ar adegau neu drwy'r amser.

Mae'r data hefyd yn dangos, er bod tenantiaid rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi, bod tenantiaid rhentu preifat yn fwy tebygol o syrthio i dlodi oherwydd eu costau tai. Mae tenantiaid preifat hefyd yn poeni fwyaf am golli eu cartref dros y tri mis nesaf.

Mae'n bryderus bod 46 y cant o aelwydydd yn poeni am golli eu cartref o fewn y tri mis nesaf. Mae digartrefedd eisoes ar gynnydd yng Nghymru, ynghyd â niferoedd cynyddol mewn llety dros dro am gyfnodau hirach. Y prif reswm dros hyn yw diffyg cyflenwad sylweddol o dai fforddiadwy a chostau uwch yn y sector rhentu preifat.



Rydym ni yn CIH yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.

Er i ni groesawu'r ymrwymiad parhaus o gyllid:

- 2023/24 - £330m
- 2024/25 - £325m

Mae pwysau chwyddiant yn golygu na fydd yr arian hwn yn mynd mor bell. Yn 2021/22 roedd cyfanswm y datblygiadau a gwblhawyd 1,000 yn llai o unedau na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n rhaid i dai cymdeithasol a fforddiadwy ffurfio rhan ganolog o'r ateb wrth daclo lefelau tlodi cynyddol yng Nghymru, ynghyd â rhaglen ddatgarboneiddio gadarn yn y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau tanwydd.

Mae angen i ni edrych ar lefelau incwm aelwydydd hefyd. Nid yw cyflogau wedi cadw i fyny gyda chwyddiant, ac mae llawer o aelwydydd bellach yn gweld gostyngiad termau real yn eu tâl. Gyda thlodi tra'n gweithio ar gynnydd mae angen mynd i'r afael â hyn.

Rydym yn ddiolchgar y bydd budd-daliadau'n codi'n unol â chwyddiant o fis Ebrill, ond mae mwy y gall Llywodraeth y DU ei wneud gan gynnwys:

- Adfer cyfraddau lwfans tai lleol (LHA) i o leiaf y 30fed canradd a dychwelyd i gynnydd blynyddol
- Dileu'r gyfradd llety a rennir o LHA
- Dileu'r cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn
- Dileu'r dreth ystafell wely

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru godi'r materion hyn yn eu trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r gyllideb sydd ar y gweill.

## Y camau nesaf

Er bod y data i'w weld yn creu darlun llwm o ran lefelau tlodi yng Nghymru, rydym yn gwybod bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gwneud gwaith i helpu trigolion a thenantiaid i liniaru effaith costau byw. Hoffem glywed am y gwaith hwn fel y gallwn ei rannu gyda'n haelodau, er mwyn i ni weithio ar y cyd fel sector i helpu i leihau effaith tlodi yma yng Nghymru. Gallai hyn fod ar ffurf clybiau swyddi, timau mwyafu incwm neu ddulliau arloesol o atal digartrefedd. Os hoffech chi gael eich cynnwys, cysylltwch â: cerys.clark@cih.org.

